PECYN GWNEUD FFILMIAU

CROESO I'R STIWDIO

Helo, Ronnie ydw i, cyfarwyddwr mawr y Tate Movie Project. Felly beth am fwrw iddi. Rydw i angen dy help di. Dy luniau. Dy sain. Dy syniadau. Cer draw i **tatemovie.co.uk** a bwrw iddi. A thrwy'r pecyn dechrau bach yma, rydw i'n mynd i dy roi di ar ben ffordd, er mwyn i ti allu gwneud dy ffilm dy hun. Dilyn fi. Ffwrdd â ni!

script
Sound
ART DEPT.
Yn gyntaf, animeiddio. Animeiddio yw'r gair am wneud i lun neu wrthrych llonydd symud o gwmpas fel hyn.
Nawr, mae angen stori i'w hanimeiddio, felly beth am ddechrau meddwl...

DECHRAU ARNI

Edrycha ar y lluniau ac ysgrifenna neu tynna lun beth wyt ti'n feddwl sy'n digwydd nesaf.

Cars? © Julian Opie

I ble mae'r car coch yn mynd?

Between the Two my Heart is Balanced
℗ Lubaina Himid

Am beth mae'r bobl yn siarad?

Whaam! ℗ The Estate of Roy Lichtenstein/DACS 2010

Whoosh, Pop, Sbalt!
Alli di dynnu llun sŵn?

Galli di ddefnyddio un o dy luniau neu hyd yn oed rywbeth rwyt ti'n ei weld o dy gwmpas i gychwyn stori!

YSTAFELL YSGRIFENNU

Teitl:

Y stori mewn un frawddeg:

Cymeriadau (enw ac un frawddeg amdanynt):

Beth sy'n digwydd iddyn nhw?

Beth yw'r peth cyntaf fydd dy gynulleidfa di'n ei weld... a'i glywed?

Sut mae'r stori'n gorffen?

Unwaith y cei di syniad am stori, defnyddia ein cynlluniwr i'w rhoi hi at ei gilydd.

STIWDIO GELF

Helo, Egg ydw i. Croeso i'r stiwdio gelf. Gall sut mae dy gymeriadau di'n edrych helpu naws a theimlad dy ffilm di. Defnyddia'r wynebau gwag hyn i ymarfer gwahanol deimladau fel ofn, doniolwch neu syndod.

← HAPUS

CREU CYMERIAD SY'N SYMUD

BETH FYDD EI ANGEN:

- [x] Papur
- [ ] Beiro neu bensel
- [ ] Clipiau papur

Tynna lun dy gymeriad a rhannau'r corff ar wahân fel hyn. Torra'r rhannau a chlipia'r coesau, y breichiau a'r pen at y corff gyda chlipiau papur neu *sticky tack*.



Gwna sawl pen gwahanol gydag wynebau sy'n dangos teimladau gwahanol fel y rhai ar dudalen 5.

Cofia fod angen i ti allu symud dy gymeriad er mwyn ei animeiddio!

Galli hefyd greu cymeriad o glai modelu neu bethau o gwmpas y tŷ fel potel sebon golchi llestri wag neu oren.

Paid anghofio llun cefndir dy ffilm. Galli wneud un allan o hen ddarn o gardbord neu ddefnydd.



BWRDD STORI

Pan fyddaf i'n creu fy nghampweithiau, rydw i bob amser yn defnyddio bwrdd stori. Mae'n gam pwysig iawn yn y gwaith o greu ffilm. Mae'n ein helpu i roi'r hyn sydd yn ein pennau i lawr ar bapur. Defnyddia'r bwrdd stori hwn i gynllunio dy stori.



FEL HYN

1

Tudalen deitl/enw'r ffilm

NODIADAU

2

Ble mae'n dechrau?

6

...ac wedyn?

3

Beth sy'n digwydd nesaf?

4

Beth sy'n digwydd nawr?

5

...a nawr?

7

...ac wedyn?

8

Sut mae'n gorffen?

9

Diolchiadau: "Diolch bawb!"

DY STIWDIO

BETH FYDD EI ANGEN:

- ☐ Cymeriadau
- ☐ Cefndir
- ☐ Bwrdd stori
- ☐ Rhywbeth i dynnu lluniau... camera fideo/ gwe-gamera/ffôn symudol
- ☐ Cyfrifiadur

Cymer ofal!
Tynna luniau mewn llefydd diogel a chofia ofyn i oedolyn am help bob amser os wyt ti angen.

1 Gosoda dy gefndir yn wastad ar fwrdd neu yn erbyn wal.

2 Gosoda dy gamera fel bod y cefndir yn llenwi'r camera – gwna'n siŵr nad yw'r camera'n symud (byddai treipod yn help).

3 Tynna lun o dy gefndir i sefydlu'r lleoliad.

4 Rho dy gymeriad cyntaf yn ei le a thynna lun.

5 Symuda dy gymeriad fesul cam bach – tynna lun bob tro fyddi di'n ei symud.

6 Ychwanega at y cymeriadau a'r symudiadau nes y byddi di wedi dweud dy stori.

7 Llwytha dy luniau ar gyfrifiadur. Mae meddalwedd yn dod am ddim gyda llawer o gyfrifiaduron, edrych i weld os yw hynny'n wir am dy gyfrifiadur di. Gwylia dy ffilm, ac ychwanega'r teitl, sain ac effeithiau.

SAIN A CHERDDORIAETH

Dyma rai effeithiau sain sy'n hawdd i'w creu:

– **Tân yn clecian –** dal becyn creision yn agos at y meic a gwasga fe'n araf.

– **Adennydd draig –** defnyddia ymbarél mawr, gan ei agor a'i gau fel y bydd dy gymeriad di'n symud.

– **Roced yn codi –** chwytha'n ofalus i mewn i'r meic gan wneud mwy a mwy o sŵn yn raddol.

Ar ôl i ti wneud dy ffilm, galli ychwanegu lleisiau, cerddoriaeth ac effeithiau sain.

Cofia:
Ceisia ddod o hyd i fan tawel i recordio, digon pell oddi wrth bethau a phobl swnllyd.

DOD Â LLUNIAU'N FYW

Syniad newydd sbon! Dyma ffordd arall o animeiddio gan ddefnyddo llawer o ffotograffau. Pam wyt ti'n oedi? Rydw i'n mynd i animeiddio fy hun yr eiliad hon draw i'r fan acw...

BETH FYDD EI ANGEN:

- ☐ 12 darn o bapur
- ☐ Beiro neu bensel
- ☐ Camera

1 Tynna lun gwrthrych – afal, balŵn neu ffigwr coesau matshis. Unrhyw beth o gwbl!

2 Dargopïa dy lun ond gwna fe ychydig yn wahanol. e.e. y balŵn yn fwy.

3 Dargopïa'r ail lun gan ei newid eto i barhau'r hyn rwyt ti wedi'i ddechrau.

4 Dal ati i wneud hyn nes bod gen ti 12 o luniau.

5 Tynna ffotograff o bob llun yn y drefn y tynnaist ti'r lluniau.

6 Fflicia drwy dy ffotograffau ar gamera neu gyfrifiadur – beth sy'n digwydd?!



Y CAMAU NESAF

...rydw i'n fwy fan hyn, ti'n gweld! Nawr dy fod di wedi dysgu rhai cyfrinachau, mae'n bryd i ti fwrw ati. Cer i tatemovie.co.uk a llwytha dy holl syniadau ar gyfer EIN ffilm fawr NI. Clic clic.

Hefyd cer i
bbc.co.uk/cbbc/meandmymovie
i rannu dy ffilmiau di!

www.bafta.org
i glywed gan yr arbenigwyr.

www.filmeducation.org
i wybod mwy am fynd i'r sinema gyda dy ysgol!

Mae Tate Movie Project yn rhan o'r Olympiad Diwylliannol. Cer i **www.london2012.com/culture** i ddarganfod mwy.

BRITISH ACADEMY
OF FILM AND TELEVISION ARTS

film education

© Cyhoeddwyd gan Tate Movie Project 2010

Nid yw partneriaid Tate Movie Project yn gyfrifol am weithgaredd sefydliadau allanol na chynnwys gwefannau allanol.

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu 100%.

www.tatemovie.co.uk

TATE

cbbc BBC

Legacy Trust UK

LOTTERY FUNDED

bp

premier partner of the
London 2012 Cultural Olympiad